

Hanfodion Hyfforddwy: Sut i ddefnyddio Wikipedia fel arf dysgu

Gwyddoniadur ar-lein rhad ac am ddim yw Wikipedia sy'n agored i'w olygu gan unrhyw un. Daw Wikipedia yn bumed o ran nifer yr ymweliadau i wefanau, ac mae'n adnodd y mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr prifysgol yn ei ddefnyddio. Ond mae llawer o addysgwyr ym mhob cwr o'r byd wedi defnyddio Wikipedia fel arf dysgu o fewn eu dosbarthiadau a'u darlithoedd. Yn y llyfryn hwn, fe ddown â'u profiadau ynghyd i'ch cynorthwyo i benderfynu sut i ddefnyddio Wikipedia yn eich ystafell ddosbarth.

Rydym wedi trefnu'r llyfryn yn dair rhan:

Cynllunio aseiniadau

Dewch i wybod beth yw prif bolisiau Wikipedia, a chael mwy o wybodaeth am gynllunio aseiniadau, gyda ffocws ar ofyn i fyfyrwyr ysgrifennu erthyglau Wikipedia ar gyfer y dosbarth.

Yn ystod y tymor

Dysgwch beth yw strwythur da ar gyfer erthygl Wikipedia, sut dylai myfyrwyr ddewis erthyglau i'w gwella, awgrymiadau ynghylch beth i roi sylw iddo mewn sesiwn lab Wikipedia, a sut i ryngweithio gyda'r gymuned o olygwyr Wikipedia.

Ar ddiwedd y tymor

Cymrwch gip ar strwythur asesu

enghreiffiol a weithiodd ar gyfer
hyfforddwy eraill.

Deall polisiau allweddol:

Ers dechrau Wikipedia yn 2001, mae'r gymuned o olygwyr - "Wicipedwyr" - wedi datblygu sawl polisi allweddol i sicrhau bod Wikipedia mor ddibynadwy a defnyddiol â phosib.

Rhaid i unrhyw aseiniad y byddwch yn ei defnyddio yn eich ystafell ddosbarth ddilyn yr egwyddorion hyn. Mae dealltwriaeth o'r polisiau canolog hyn yn sicrhau eich bod yn datblygu aseiniad sy'n cwrdd â'ch amcanion dysgu, a'ch bod hefyd yn gwella Wikipedia.

"Mae'r gwaith y mae myfyrwyr yn ei gyfrannu i Wikipedia yn *gynnwys rhydd* ac fe ddaw'n rhan o'r eiddo cyffredin. Gall pobl eraill ei olygu a'i aildefnyddio dan drwydded rydd, agored. Rhaid i bob gwaith sy'n ymddangos ar Wikipedia fod yn wreiddiol. Nid yw'n briodol copïo a phastio o ffynonellau eraill."

— Defnyddiwr:Lechatjaune

Ilun ar drwydded CC-BY-SA 3.0 gan Ddefnyddiwr:Lechatjaune

"Y *ffynonellau mwyaf dibynadwy* ar Wikipedia yw ffynonellau eilaidd sydd ag enw da am wirio ffeithiau, megis llyfrau a gyhoeddwyd gan weisg academiaidd, cyfnodolion wedi eu cyd-adolygu, a phapurau newydd rhyngwladol. Dylech osgoi ddyfynnu blogiau, datganiadau'r wasg a ffynonellau eraill llai ffurfiol. Dylai myfyrwyr ddefnyddio ffynonellau sy'n cynrychioli safbwyntiau arwyddocaol, yn hytrach nag astudiaethau effemeral neu waith sydd ar y cyrion."

— Defnyddiwr:Mariana Jó

Ilun ar drwydded CC-BY-SA 3.0 gan Ddefnyddiwr:Mariana Jó

"Rhaid i bopeth sydd ar Wikipedia fod wedi'i ysgrifennu o *safbwynt niwtral*. Nid man i ehangu neu eirioli yw Wikipedia. Rhaid i bob gwybodaeth gael ei gyflwyno'n gywir ac yn ddiduedd, gan ddisgrifio'r holl safbwyntiau arwyddocaol a gyhoeddwyd gan ffynonellau dibynadwy. Dylech egluro'r gwahanol farnau sydd i'w cael ar destun, nid dadlau dros y naill ochr neu'r llall."

— Defnyddiwr:GorillaWarfare

Ilun ar drwydded CC-BY-SA 3.0 gan Ddefnyddiwr:GorillaWarfare

"Rydym yn defnyddio'r cysyniad o *'Amlygrwydd'* i bennu a yw testun yn gwarantu erthygl ai peidio. Yn gyffredinol, fe ystyrir testun i fod yn un digon amlwg os yw trydydd parti wedi rhoi sylw iddo mewn ffynhonnell ddibynadwy. Os yw eich myfyrwyr yn dechrau erthyglau newydd, dylent ddarganfod sawl ffynhonnell annibynnol ddibynadwy ar y testun cyn dechrau."

— Defnyddiwr:Mohamed Ouda

Ilun ar drwydded CC-BY-SA 3.0 gan Ddefnyddiwr:Faris knight

“Dylai pawb sy’n golygu Wicipedia, gan gynnwys myfyrwyr, gymryd bod popeth yn cael ei wneud mewn *ewyllys da* wrth ymwneud ag eraill. Mae hynny’n golygu ein bod yn trin ein gilydd gyda pharch ac yn cymryd bod pawb yn gweithredu gyda’r un amcan: gwella cynnwys Wicipedia. Rydym yn rhoi pwys ar warineb wrth drafod testunau cynhennus. Cofiwch drafod y cynnwys sydd i’w olygu bob tro, ac nid y person sy’n gwneud y golygu, a pheidiwch byth ag ymosod yn bersonol.”

— Defnyddiwr:Mike Christie

llun ar drwydded CC-BY-SA 3.0 gan Ddefnyddiwr:Mike Christie

3

Cynllunio eich aseiniad

Mae sawl opsiwn i’w gael yn Wicipedia o ran aseiniadau, yn seiliedig ar eich amcanion dysgu. Rhowch ystyriaeth i setiau sgiliau eich myfyrwyr, faint o gyfraniad yr hoffech chi i’ch myfyrwyr ei wneud i Wicipedia, a faint o amser sydd gennych ar y cwrs i’w neilltuo ar gyfer yr aseiniad.

Yn y llyfryn hwn, fe rown sylw i’r aseiniad er mwyn gofyn i fyfyrwyr ysgrifennu erthygl ar destun sy’n berthnasol i’r cwrs; dyma un o’r aseiniadau mwyaf cyffredin gan hyfforddwyr.

1

Aseiniad: Ysgrifennu erthygl

Yn yr aseiniad “Ysgrifennwch erthygl”, rydych yn gofyn i’ch myfyrwyr ehangu ar erthygl sy’n bod eisoes neu greu erthygl o’r newydd ar destun sy’n ymwneud â’r cwrs. Gan ddefnyddio ffynonellau dibynadwy, bydd myfyrwyr yn dogfennu gwybodaeth am y testun. Yn aml, mae hyfforddwyr yn defnyddo’r aseiniad yma ar y cyd gyda phapur hirach arall all-lein; mae erthyglau Wicipedia y myfyrwyr yn ffurfio adrannau adolygu llenyddiaeth eu papurau.

Aseiniadau amgen:

Cyfieithu erthygl

Mae athrawon ieithoedd o’r farn bod yr aseiniad yma yn un ymarferol iawn. Mae’ch myfyrwyr yn dewis erthyglau o’r radd flaenaf o Wicipedia’r iaith maent yn ei hastudio nad sydd ar gael ar hyn o bryd ar Wicipedia eu hiaith frodorol, ac yn cyfieithu’r erthyglau hynny i’r iaith frodorol.

Ychwanegu delweddau i erthygl

Os yw’ch myfyrwyr yn hen law ar y cyfryngau, gall hyn fod yn ffordd wych o gyfrannu at Wicipedia mewn dull di-destun. Yn y gorffennol, mae myfyrwyr wedi tynnu lluniau cofadeiladau lleol i ddarlunio erthyglau testun yn unig, wedi dylunio graffigwaith i ddarlunio cysyniadau ar Wicipedia, neu wedi creu fideos i arddangos yn glyweledol yr hyn mae’r erthygl yn ei ddisgrifio mewn geiriau.

Golygu testun

Gan fod Wicipedia yn adnodd sy’n cael ei greu gan y defnyddiwr, fe welwch chi fod digonedd o wallau teipio a bod digon o le i wella’r rhyddiaith. Mae gofyn i fyfyrwyr fireinio a chywiro gramadeg erthygl yn ffordd dda o ddysgu sgiliau golygu testun a meddwl yn feirniadol ynglŷn â sut mae ysgrifennu’n dda yn eich disgyblaeth chi.

Ceir llyfryn atodol, “Astudiaethau Achos: Sut mae hyfforddwyr yn dysgu gyda Wikipedia” sy’n cynnwys dolenni i feysydd llafur a disgrifiadau o aseiniadau y mae hyfforddwyr wedi eu defnyddio mewn gwahanol rannau o’r byd. Mae rhai o’r aseiniadau cyffredin yn cael eu rhestru uchod, ond fe’ch anogir i edrych drwy’r llyfryn Astudiaethau Achos am ragor o syniadau. <http://education.Wicimedia.org/casestudies>

4 Hanfodion Hyfforddwyr / Cynllunio aseiniadau

2

Amcanion dysgu

Fel rheol mae gofyn i fyfyrwyr ysgrifennu erthygl Wikipedia yn ffordd dda o gyflawni’r pedwar amcan dysgu yma:

Datblygu sgiliau ysgrifennu

Mae myfyrwyr yn dysgu sut i ysgrifennu ar gyfer cymuned o ddarlennwyr amrywiol a chwilfrydig sy’n cynrychioli canran arwyddocaol o’r boblogaeth ar-lein fyd-eang. Hefyd, gyda phwyslais Wikipedia ar wiriadwyedd a “dim ymchwili gwreiddiol”, mae myfyrwyr yn ennill gwell dealltwriaeth o’r gwahaniaeth rhwng arddull ysgrifennu sy’n seiliedig ar ffeithiau ac un darbwyllo.

Llythrennedd cyfryngau a gwybodaeth

Mae proses datblygu cynnwys tryloyw a chydweithredol Wikipedia yn caniatáu i fyfyrwyr ennill gwell dealltwriaeth o sut mae gwybodaeth yn cael ei chynhyrchu a’i defnyddio. Dyma gyfle gwyb i fyfyrwyr ystyried y ffynonellau sydd ar gael a’r defnydd priodol a wneir ohonynt.

Meddwl yn feirniadol a sgiliau ymchwil

Mae myfyrwyr yn dysgu sut i ddadansoddi erthyglau Wikipedia yn feirniadol a phennu pa mor dda mae erthygl yn trafod y testun, asesu pa wybodaeth sydd ar goll, a gwerthuso i ba raddau mae’r erthygl wedi ei dogfennu gyda ffynonellau dibynadwy. Yn y cyd-destun eangach, mae gwerthuso erthyglau Wikipedia yn cynorthwyo’ch myfyrwyr i ddysgu sut i werthuso gwahanol ffynonellau, nid dim ond Wikipedia.

Mae’r broses o asesu erthygl sy’n bod eisoes a phenderfynu pa wybodaeth sydd ar goll yn debyg iawn i’r broses o adolygu llenyddiaeth sy’n hanfodol i ymchwil ysgolheigaidd.

Cydweithio

Mae myfyrwyr yn dysgu yn llygad y ffynnon sut i gydweithio gyda chymuned o olygwyr gwirfoddol gweithredol (gan gynnwys eu cyd-fyfyrwyr) i ddatblygu cynnwys gwyddoniadurol. Maent yn aml yn derbyn adborth ar eu gwaith ac yn dysgu cyd-drafod gyda golygyddion eraill wrth adeiladu eu gwaith.

3

Cynllunio'r maes llafur

Dywed hyfforddwr profiadol ei bod hi'n hanfodol bod myfyrwyr sydd am olygu Wikipedia yn gyfforddus nid dim ond gyda chystrawen wici, ond hefyd gyda'r gymuned. Bydd gofyn am aseiniadau bychain yn gynnar yn y tymor, megis y rhai a restrir isod, yn eu helpu i gynefino â'r wefan. Mae hyfforddwr sydd ddim yn mynd ati i sefydlu'r cerrig milltir yma yn ystod y tymor fel arfer yn gweld nad yw pethau'n mynd cystal gyda'u haseiniadau.

Mae'r tasgau syml yma yn paratoi myfyrwyr ar gyfer aseiniad Wikipedia hirach drwy gyflwyno sgiliau fydd eu hangen arnynt yn ddiweddarach.

- › Dylai myfyrwyr lunio tudalen defnyddiwr, gan gynnwys brawddeg neu ddwy amdanynt eu hunain a chynnwys delwedd o Gomin Wicimedia (storfa ddelweddau Wikipedia).
- › Anogwch y myfyrwyr i lwytho ffotograff y maen nhwy wedi'i gymryd i fyny i Gomin Wicimedia.
- › Gofynnwch i fyfyrwyr wella eglurder brawddeg neu ddwy mewn erthygl sy'n berthnasol i'r dosbarth.
- › Gall y myfyrwyr ddefnyddio daleniad o'r cwrs i ychwanegu cyfeiriad i erthygl.
- › Unwaith iddynt ddethol testun ar gyfer eu tasg ysgrifennu, dylai myfyrwyr bostio neges ar dudalen sgwrs yr erthygl gan gynnwys rhywfaint o ffynonellau arfaethedig.
- › Gofynnwch i fyfyrwyr bostio amlinell o'r newidiadau arfaethedig ar y dudalen sgwrs cyn dechrau ysgrifennu.

Unwaith i fyfyrwyr gwblhau'r cerrig milltir yma, byddant yn teimlo'n fwy cyfforddus wrth weithio ar Wikipedia. Mae gan fyfyrwyr dueddiad i ohirio, felly mae'n well defnyddio'r rhain fel cerrig milltir cynnar i'w cwblhau cyn iddynt ddechrau ysgrifennu o ddifri.

Mae llyfryn atodol ar gael sy'n cynnig maes llafur syml y bu tros 100 o hyfforddwr yn ei ddefnyddio wrth wneud y math yma o aseiniad. Lawr lwythwch y llyfryn o <http://education.Wicimedia.org/syllabus>

Cynllunio aseiniadau / Hanfodion Hyfforddwr 5

Dewis erthygl

Gall dewis pa erthygl y dylai myfyrwyr weithio arni fod yn dipyn o her. Mae rhai hyfforddwr yn creu rhestr o erthyglau ac yn gofyn i fyfyrwyr ddewis o'r rhestr; mae eraill yn gofyn i fyfyrwyr gynnig testunau. Os hoffech chi i'ch myfyrwyr greu erthyglau o'r newydd, yn hytrach na gwella erthyglau sy'n bod eisoes, sicrhewch eu bod wedi darllen polisi amlygrwydd Wikipedia (Wikipedia:Amlygrwydd) a'u bod yn hyderus fod y testunau'n rhai hynod – hynny yw, bod digonedd o ffynonellau trydydd-parti dibynadwy ar gael yn y maes.

Beth yn union sy'n gwneud erthygl Wicipedia dda? Gnewch yn sicr eich bod chi a'ch myfyrwyr yn cyfarwyddo'ch hunain â strwythur erthygl Wicipedia nodweddiadol yn eich disgyblaeth, fel bod myfyrwyr yn gwybod pa fathau o adrannau y bydd disgwyl iddynt eu cyfrannu.

Ni fydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr wedi meddwl am strwythur erthygl gwyddoniadur o'r blaen, felly mae'n bwysig treulio rhai munudau yn y dosbarth yn egluro sut mae gwybodaeth wedi ei strwythuro mewn gwyddoniaduron.

Pethau i'w gwneud

- › Gofynnwch i'ch myfyrwyr ddewis testun sydd wedi ei hen sefydlu yn y ddisgyblaeth, ond heb fawr o stff arno ar Wicipedia. Os oes llawer o lenyddiaeth ar gael ar y testun, ond dim ond ychydig o wybodaeth sydd i'w chael ar Wicipedia, yna dyma'r man gorau i fynd i'r afael a'r gwaith.
- › Edrychwch am erthyglau sy'n cael eu dosbarthu i'r hyn a elwir "eginyn" ("stub"). Fe welwch chi asesiad o'r erthygl, efallai, o fynd i'w thudalen sgwrs.
- › Sicrhewch eich bod yn chwilio am sawl amrywiad gwahanol ar y term cyn creu erthygl. Fe welwch chi'n aml fod testun eisoes wedi cael sylw dan enw gwahanol.

Pethau i'w hosgoi

- › Fe'ch cynghorir i beidio mynd ati i geisio gwella erthyglau ar destun rhy eang (e.e. y gyfraith, neu erthyglau sydd eisoes o ansawdd uchel ar Wicipedia (yr "Erthyglau Dethol"). Mae'n fwy o her gwella'r rhain mewn modd effeithiol.
- › Peidiwch â cheisio gwella testunau sy'n hynod ddadleuol, pethau fel cynhesu byd-eang, erthyly, neu Seientoleg. Yn aml iawn mae testunau dadleuol yn arwain at ymrafael ar Wicipedia. Yn hytrach, dylid annog myfyrwyr i ddechrau is-erthyglau.
- › Dylid osgoi gweithio ar erthyglau ag iddynt fawr o lenyddiaeth. Gwaith anodd fydd hi i fyfyrwyr fedru darparu digon o ffynonellau dibynadwy i greu erthygl Wicipedia.
- › Peidiwch â chychwyn erthyglau ble mae'r teitl yn awgrymu eich bod yn ysgrifennu ar ffurf traethawd: "Yr Effaith gafodd yr Argyfwng Morgeisi Eilaidd ar Economi'r Unol Daleithiau a'r Economi Fyd-eang" yn hytrach na "Yr Argyfwng Morgeisi Eilaidd". Gwyddoniadur yw Wicipedia, ac nid yw traethodau'n briodol.

Strwythur nodweddiadol erthygl Wikipedia

Mae gan erthygl o safon ar Wikipedia strwythur amlwg, cynnwys gwyddoniadurol, a chymuned weithredol.

Adran arweiniol

Dylai adran arweiniol grynhoi'r pwyntiau allweddol sy'n cael sylw yn yr erthygl. Noder nad oes pennawd i'r adran arweiniol. Dylai'r frawddeg gyntaf gynnig diffiniad o destun yr erthygl.

.

Gwybodlen

Mae nifer o erthyglau'n cynnwys gwybodlen sy'n disgrifio prif elfennau'r testun. Dewch o hyd i erthygl ar destun tebyg i'ch un chi a chopiwch y cod ar gyfer y wybodlen er mwyn ychwanegu un i'ch erthygl.

Corff yr erthygl

Mae penawdau'n amlinellu'r adrannau priodol. Mae'r erthygl yn rhoi sylw i hanes y corwynt yn ogystal â'i effaith. Mae hefyd yn nodi'r cysylltiad Cymreig, os oes un.

Delweddau

Mae modd ychwanegu delweddau sydd ar drwydded rydd-agored i erthyglau Wikipedia

o Gomin Wicipedia.

Atodiadau a throednodiadau

Yn dilyn y cynnwys daw adran sy'n cynnwys erthyglau Wicipedia eraill perthnasol ("Gweler hefyd"), yr adnoddau a ddefnyddiwyd yn yr erthygl ("Cyfeiriadau"), a rhestr o wefannau eraill i fynd iddynt am ragor o wybodaeth ("Dolenni allanol").

Cyflwyno hanfodion wici i fyfyrwyr

Yn ystod wythnosau cyntaf y cwrs, rydym yn argymhell eich bod yn cyflwyno hanfodion Wicipedia, gan gynnwys cyfarwyddiadau ar sut i olygu, a'r ffaith bod ysgrifennu erthygl ar gyfer Wicipedia yn wahanol i ysgrifennu traethawd coleg arferol.

Os bydd amser yn caniatáu, ewch â'ch myfyrwyr i labordy gyfrifiaduron am gyflwyniad ymarferol i'r gwaith o olygu wici. Bydd y myfyrwyr yn gweld y golygu'n digwydd yn "fyw" a bydd yn fan diogel iddynt wneud camgymeriadau a gofyn cwestiynau amser real. Mae sesiwn labordy fel yma, fel arfer, yn para rhyw awr neu ddwy.

Os ydych yn teimlo'n ddigon cyfforddus gyda golygu wici, byddwch yn gallu arwain y weithgaredd hon eich hun. Os na, yna gallwch recriwtio Wicipedwyr lleol neu gysylltu â Chennad Wici eich campws (os oes un yn eich Prifysgol).

Awgrymiadau ynglŷn â beth i'w drafod

- › Fformatio sylfaenol
- › Golygu wici-gôd
- › Creu dolenni
- › Creu cyfeiriadau (“*references*”)
- › Sut i greu pwll tywod er mwyn ymarfer
- › Gwahaniaethau rhwng tudalennau erthygl, tudalennau sgwrs, a thudalennau defnyddwyr
- › Defnyddio tudalennau sgwrs

Os yw'n well gennych ofyn i'ch myfyrwyr wneud hyn yn eu hamser eu hunain, mae hyfforddiant Saesneg ar-lein ar gael yn :
<http://enwp.org/WP:STUDENT>

Mae'n well i fyfyrwyr greu eu cyfrifon defnyddwyr *cyn* dod i'r labordy gyfrifiaduron. Mae hyn yn caniatáu iddynt ddarllen polisi enw defnyddiwr Wikipedia ac ystyried pa mor anhysbys maent am fod ar y safle (mae hefyd yn osgoi'r cyfyngiadau awtomatig sy'n atal greu cyfrifon niferus o'r un lleoliad, a all achosi problemau).

Y gwahaniaeth rhwng Wikipedia a thraethawd coleg

Dyma rai o'r pethau y bydd raid i fyfyrwyr roi ystyriaeth ychwanegol iddynt wrth fynd ati i ysgrifennu erthygl ar Wikipedia:

Ysgrifennu sy'n seiliedig ar ffeithiau, nid perswâd

Yn hytrach na chreu dadl, bydd myfyrwyr yn ysgrifennu disgrifiad o'r wybodaeth am destun, gan ddyfynnu ffynonellau dibynadwy.

Naws ffurfiol ac iaith sylfaenol

Dylid ysgrifennu erthyglau mewn nawb ffurfiol, ond mewn iaith eglur. Nid Wikipedia yw'r lle i arddangos geirfaeoddd helaeth. Mae cynulleidfa Wikipedia'n fyd-eang, a bydd pobl na glywodd am y pwnc erioed o'r blaen yn darllen beth mae'r myfyrwyr yn ei ysgrifennu. Rhaid i fyfyrwyr gyfleu hanfodion y testun yn eglur.

Dim talpiau enfawr o ddyfyniadau

Mae ysgrifennu academig yn ffafrio darnau mawr o ddyfyniadau o ffynonellau dibynadwy, ond dywed polisi Wikipedia y dylech geisio aralleirio pan fo hynny'n bosib. Mae Wici'n annog dyfynnu o ffynonellau, ond dylai myfyrwyr geisio roi'r cyd-destun yn eu geiriau eu hunain a dyfynnu dim ond un neu ddwy o frawddegau allweddol o'r gwreiddiol. Ar y Wikipedia Cymraeg, rydym yn caniatáu dyfyniadau Saesneg.

Rhyngweithio gyda'r gymuned

Mae cydweithio gyda chymuned Wikipedia yn

allweddol i'ch myfyrwyr o ran manteisio ar holl fuddion aseiniad Wicipedia. Ond sut mae gwneud hyn?



darluniau CC-BY-SA 3.0 gan Jelly Helm

Mae Wicipedwyr yn rhyngweithio drwy ysgrifennu negeseuon ar gyfer ei gilydd ar dudalennau sgwrs yr erthyglau neu dudalennau siarad y defnyddwyr. Os yw defnyddiwr arall am gyfathrebu â chi, mae'n debyg y bydd ef neu hi yn gadael neges yn uniongyrchol ar eich tudalen sgwrs neu ar dudalen sgwrs yr erthygl y buoch y gweithio arni. Mae'n syniad da monitro ac ymateb i'r negeseuon yma.

Mae'r holl ryngweithio ar Wicipedia yn tybio'r gorau. Hynny yw, hyd nes bod modd profi fel arall, rydym yn cymryd bod golygyddion eraill yma i helpu gyda'r gwaith o wella'r gwyddoniadur. Felly, dylid ymateb i bob golygydd gyda pharch.

Wrth wneud newidiadau i erthyglau Wicipedia, mae disgwyl i olygyddion roi eglurhad byr o'r newidiadau mewn crynodeb olygu. Pan fyddwch yn cwblhau'r blwch bach yn y ffenestr olygu gyda geiriau fel "golygu testun" eu "ychwanegu cyfeiriad", bydd eraill yn gallu dilyn hanes yr erthygl o glicio ar y tab "Gweld yr hanes".

Arferion

Fel gydag unrhyw gymuned, mae i Wicipedia ei harferion. Dyma lond llaw o ganllawiau syml i'ch helpu i gyfathrebu â Wicipedwyr eraill:

- › Tybiwch y gorau: Cymerwch fod golygyddion eraill yn ceisio gwella'r prosiect. Ceisiwch ddeall eu safbwynt. Trafodwch. Negodwch.
- › Byddwch yn gwrtais a chofiwch ei bod hi'n anoddach darllen coegni ac eironi mewn testun nag ar ffurf lafar. Gall pobl gamddeall y math yma o iaith.
- › Llofnodwch eich sylwadau ar dudalennau sgwrs bob tro drwy ddefnyddio pedwar tild (~~~~), sy'n ychwanegu'ch enw defnyddiwr a'r dyddiad yn awtomatig, fel bod eraill yn gallu dilyn pwy sy'n dweud beth.
- › Trafodwch unrhyw newidiadau mawr rydych am eu gwneud i'r gwyddoniadur ar dudalen siarad yr erthygl cyn eu gwneud!
- › Trafodwch gynnwys erthygl, nid y golygwyr. Peidiwch ag ymosod yn bersonol.

Asesu gwaith myfyrwyr

Sut mae asesu cyfraniadau'ch myfyrwyr i Wicipedia a'u gwaith ysgrifennu am Wicipedia? Gall dyfeisio cyfarwyddyd graddio fod yn hawdd neu'n heriol, yn ôl cymhlethdod yr aseiniad. Dyma gyfarwyddyd graddio enghreifftiol a weithiodd yn dda ar gyfer hyfforddwyr eraill.

Strwythur Graddio Enghreifftiol

Gradd am gymryd rhan mewn ymarferion Wicipedia cynnar	5%yr un (x4)
Cymryd rhan mewn blog dosbarth neu drafodaethau dosbarth	10%
Cyd-adolygu a gweithio gyda gweddill y dosbarth	10%
Ansawdd eich prif gyfraniadau Wicipedia	50%
Traethawd myfyriol	10%

Ymarferion Wikipedia cynnar

A lwyddodd myfyrwyr i gwblhau'r cerrig milltir a restrir yn eich maes llafur? Hynny yw, y cerrig milltir y cyfeiriwyd atynt gyntaf ar dudalen 5.

Blog dosbarth neu drafodaeth ddosbarth

Mae llawer o hyfforddwyr yn gofyn i fyfyrwyr gadw blog byw o'u profiadau. Bydd rhoi anogaeth bob rhyw wythnos neu ddwy, megis "I ba raddau mae'r golygyddion ar Wikipedia yn grŵp sy'n hunan-ddethol ac elitaidd?" yn eu cynorthwyo i ddechrau meddwl am y materion eangach sy'n berthnasol i'r gymuned wyddoniadurol ar-lein yma. Bydd hefyd yn ffordd o greu gwaith i'w raddio ar, ac oddi ar y wici. Os bydd gennych amser yn yr ystafell ddosbarth, gall y trafodaethau yma fod yn arbennig o adeiladol.

Cyd-adolygu ("Peer reviews")

Bydd y myfyrwyr yn adolygu gwaith ei gilydd ar Wikipedia, gan adael adolygiadau ar gyfer ei gilydd ar y wefan ac oddi arni. Gall yr arfarniadau yma fod ar gwestiynau fel: pa mor ddibynadwy yw'r cyfeiriadau, pa mor dda yw ymdriniaeth yr erthygl o'r testun neu ba mor dda y cafodd ei hysgrifennu?

Ansawdd cyfraniadau

Mae llawer o hyfforddwyr yn cyferbynnu erthygl cyn ac wedi i fyfyrwr fod yn gweithio arni, gan ddefnyddio hanes yr erthygl. Mae modd cymharu'r fersiwn gychwynnol gyda'r un derfynol, gan amlygu'r cyfraniadau a wnaed gan y myfyrwyr, a gweld y newidiadau unigol a wnaed ganddynt. Efallai yr hoffech i'ch myfyrwyr wneud y gwaith cymharu yma eu hunain a'i ychwanegu at y portffolio i'w gyflwyno i'ch sylw.

Traethawd myfyriol

Wedi i'r aseiniad ddirwyn i ben, gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu traethawd myfyriol byr ar eu profiadau o ddefnyddio Wikipedia. Mae hyn yn gweithio'n dda ar gyfer prosiectau byr neu hir ar Wikipedia. Amrywiad diddorol o hyn yw gofyn i fyfyrwyr ysgrifennu fersiwn fer o'u traethawd cyn dechrau golygu Wikipedia, gan amlinellu eu disgwyliadau, ac yna wedi cwblhau'r aseiniad, gofyn iddynt ystyried a wireddwyd y disgwyliadau hynny.

Adnoddau ychwanegol

Ar gyfer hyfforddwyr

Astudiaethau Achos: Sut mae darlithwyr prifysgol yn dysgu gyda Wikipedia

Mae pymtheg o athrawon o chwe gwlad wahanol yn ymddangos yn y llyfryn hwn, gyda phob un yn egluro sut mae ef neu hi'n defnyddio Wikipedia yn yr ystafell ddosbarth neu sut aethant ati i raddio'r aseiniad. Ceir fersiwn y we o'r llyfryn hefyd yn cynnwys dolenni i'r meysydd llafur a thafleini ar gyfer aseiniad.

<http://education.Wikipedia.org/casestudies>

Maes Llafur Enghreifftiol

Canllaw fesul wythnos sy'n egluro sut i gynnwys aseiniad "ysgrifennu erthygl Wikipedia" yn eich dosbarthiadau. Mae'n cynnwys cerrig milltir allweddol a brofwyd i fod yn effeithiol o ran sicrhau bod myfyrwyr yn cael y buddion addysgol gorau o'r profiad o olygu Wikipedia. Argraffwyd fersiynau Cymraeg yn 2014.

<http://education.Wikipedia.org/syllabus>

Cyfeiriadaeth Ar-lein: Wikipedia fel Arf Dysgu

Rydym yn awgrymu'n gryf bod pob hyfforddwr yn cwblhau'r gyfeiriadaeth ar-lein ar gyfer addysgwyr cyn cynllunio maes llafur. Mae'n gyflwyniad i ddiwylliant a rheolau Wicipedia, yn arddangos hanfodion golygu, ac yn eich tywys drwy aseiniad Wicipedia nodweddiadol fel yr un yma:

<http://enwp.org/WP:EDUCATOR>

Ar gyfer myfyrwyr

Croeso i Wicipedia

Cyflwyniad sylfaenol i gyfrannu i Wicipedia: sut i greu cyfrif Wicipedia, sut i ddechrau golygu, a sut i gyfathrebu gyda chyfranogwyr eraill. Byddwch hefyd yn dysgu sut mae erthyglau'n esblygu ar Wicipedia a sut i farnu beth yw ansawdd erthygl sydd eisoes yn bod.

. <<http://education.Wicimedia.org/>>welcometowikipedia

Hanfodion Golygu

Anogir myfyrwyr i ddilyn yr hyfforddiant ar-lein sy'n eu harwain drwy hanfodion cyfrannu i Wicipedia. <http://enwp.org/WP:STUDENT>

Adnoddau Ychwanegol / Hanfodion Hyfforddwyr 11

Ydych chi'n barod i ymuno â Rhaglen Addysg Wicipedia?

Mae rhaglenni addysg i'w cael eisoes mewn sawl gwlad, ac mae gwirfoddolwyr Wikimedia wrthi'n creu rhaglenni newydd bob tymor. Mewn gwledydd ble mae Rhaglen Addysg Wicipedia (*Wikipedia Education Program*) ar waith, efallai bod Cenhadon Wicipedia gwirfoddol ar gael i gynnig cymorth i'ch myfyrwyr ac i chithau wrth ddysgu beth yw'r ffordd orau i'ch dosbarth gyfrannu at Wicipedia. Yn 2014 roedd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol Gydlynnydd Wicipedia llawn amser.

Ymunwch â ni! Am ragor o wybodaeth, ewch i

<http://education.Wikimedia.org>

Mae pob delwedd o Gomin Wikimedia dan drwydded CC-BY-SA neu barth cyhoeddus oni nodir fel arall. Mae'r cynnwys sydd i'w gael yma ar gael dan Drwydded *Creative Commons Attribution-ShareAlike* v.3.0

(<[https://cy.wikipedia.org/wiki/Wikipedia:Testun_y_drwydded_Comin_Creu_Priodoliad-](https://cy.wikipedia.org/wiki/Wikipedia:Testun_y_drwydded_Comin_Creu_Priodoliad-RhannuTebyg_(heb_ei_gludo)_3.0)

[RhannuTebyg_\(heb_ei_gludo\)_3.0](https://cy.wikipedia.org/wiki/Wikipedia:Testun_y_drwydded_Comin_Creu_Priodoliad-RhannuTebyg_(heb_ei_gludo)_3.0)>Wikipedia:CC-BY-SA) neu unrhyw fersiwn ddiweddarach.

Nid yw nodau masnach a logos Wikimedia Foundation nac unrhyw fudiad arall wedi eu cynnwys dan delerau'r drwydded Creative Commons. Mae Sefydliad Wikimedia, Wikipedia, Comin, MediaWici, Wiciadur, Wicilyfrau, Wicidestun, Wicinewyddion, Wicidddyfynu, Wicigoleg, Wicirywogaeth, Wicidata, Wicidaith, a Meta-Wici yn aros i'w cofrestru fel nodau masnach neu maent yn nodau masnach cofrestredig Sefydliad Wikimedia.

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n tudalen Polisi Nodau Masnach, <http://Wikimediafoundation.org/wiki/Trademark_Policy>

Am gwestiynau eraill ynghylch ein telerau trwyddedu neu bolisi nodau masnach, danfonwch e-bost i legal@Wikimedia.org

Yn cynnwys 10%
o ffibrau ol-
ddefnyddiwr wedi
ei ailgylchu,
proses sy'n rhydd
o glorin elfennol,
a gynhyrchwyd
gan ddefnyddio
ynni
adnewyddadwy